ATODLEN 2

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2

# RHAN 4

## Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

### Cau mangreoedd a ddefnyddir gan fusnesau a gwasanaethau penodol

**7.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal neu ddarparu busnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 9 neu 10—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a

(b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

(a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;

(b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

(c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;

(d) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwasanaethau neu wybodaeth (gan gynnwys gwerthu, llogi neu ddanfon nwyddau neu wasanaethau)—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.

(3) Pan—

(a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

### Cyfyngiadau ar fangreoedd trwyddedig

**8.**—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Pan fo'r fangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, o ran y person sy'n gyfrifol am y fangre—

(a) ni chaiff werthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre ond fel rhan o bryd bwyd wrth y bwrdd y gellid disgwyl iddo gael ei weini fel brecwast, prif bryd bwyd canol dydd neu brif bryd bwyd gyda'r hwyr, neu ei weini fel prif gwrs mewn pryd bwyd o'r fath,

(b) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a

(c) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf is-baragraff (2), caiff sinema neu theatr gau'n hwyrach na 10.20 p.m. ond dim ond at ddiben gorffen—

(a) arddangos ffilm, neu

(b) perfformiad,

sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw is-baragraff (2)(b) ac (c) yn gymwys i—

(a) mangre mewn—

(i) porthladd môr;

(ii) maes awyr;

(iii) sefydliad addysgol;

(b) ffreuturau yn y gweithle.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre llety gwyliau neu lety teithio, nid yw is-baragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae is-baragraffau (2) i (4) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

**Busnesau neu wasanaethau y mae rhaid cau eu mangreoedd**

**9.** Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnsio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

**10.** Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982).